# Y Pwyllgor Addysg  Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

## ELLS(2)07-06

### Dyddiad: Dydd Mercher 3 Mai 2006
### Lleoliad: Swyddfa Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd
### Enw: Monitro Argymhellion Adroddiad y Pwyllgor i Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) Rhan 1 – Canfod ac Ymyriad Cynnar

**Diben**

1. Rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf ynglyn â datblygu a gweithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor i Anghenion Addysgol Arbennig Rhan 1 – Canfod ac Ymyriad yn Gynnar.

**Crynodeb**

2. Mae'r papur hwn yn dweud beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf ynglyn â'r camau a gymerwyd i weithredu argymhellion Llywodraeth y Cynulliad yn yr adroddiad Anghenion Addysgol Arbennig Rhan 1, a'r gwaith a wneir gan yr Awdurdodau Addysg Lleol ac asiantaethau eraill i weithredu'r argymhellion y maent yn gyfrifol amdanynt.

**Cefndir**

3. Yr oedd adroddiad y Pwyllgor yn gwneud dau ddeg naw o argymhellion am welliannau i Anghenion Addysgol Arbennig yng Nghymru. Yr oedd un deg naw ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru, a derbyniais i ddau ar bymtheg o'r rhain. Yr oedd y deg a oedd yn weddill ar gyfer Awdurdodau Addysg Lleol, gan mai ganddynt hwy y mae'r cyfrifoldeb statudol am ddarparu Anghenion Addysgol Arbennig o dan ran IV o Ddeddf Addysg 1996, ac ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol, a Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, Colegau Hyfforddi Athrawon, Estyn a'r Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm Cymru (ACCAC). Mae ACCAC erbyn hyn yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru ers 1 Ebrill 2006.

4. Rhoddais ymateb ysgrifenedig Llywodraeth y Cynulliad i'r adroddiad ym mis Ionawr 2005, a'i ddilyn gyda datganiad llafar ym mis Chwefror 2005.

5. Mae llawer o waith wedi cael ei wneud i fwrw ymlaen gyda'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor fel rhan o agenda ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddatblygu Fframwaith Polisi a Pherfformiad Cynhwysiant ar gyfer Cymru. Mae'r fframwaith hwn yn ystyried agweddau penodol ar Anghenion Addysgol Arbennig mewn perthynas â Deilliannau i Ddysgwyr gydag Anghenion Addysgol Arbennig, Grymuso'r Gweithlu, Cyllido Anghenion Addysgol Arbennig a'r Broses Asesiadau a Datganiadau Statudol. Sefydlwyd pedwar is-grwp o Grwp Ymgynghorol Cymru ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (WAGSEN) ym mis Mai 2005. Yr oedd yr aelodau yn cynnwys

cynrychiolwyr o blith yr holl randdeiliaid allweddol. Sefydlwyd yr is-grwpiau i fynd â'r gwaith hwn yn ei flaen ac wrth wneud hynny maent wedi cymryd i ystyriaeth yr argymhellion yn Rhan 1 o Adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.

6. Yn 2005, buom yn ymgynghori ynglyn â Chynnwys a Chynorthwyo Disgyblion ac mae Anghenion Addysgol Arbennig yn ffurfio rhan o'r agenda ehangach trwy ddiwallu anghenion pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghori ar gael yn ystod Tymor yr Haf 2006 a bydd y canllawiau terfynol yn cael eu cyhoeddi yn gynnar yn 2007.

## I'w Ystyried

7. Argymhellion ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad:

## Gwaith Aml Asiantaeth (Argymhellion 3.61, 3.62, 3.63, 3.65, 3.83)

8. Fel rhan allweddol o'r trefniadau i atgyfnerthu gwaith ym maes gwasanaethau plant a phobl ifanc, cyhoeddir canllawiau ynglyn â dyletswyddau lleol i gydweithredu ac i sefydlu swyddogaethau arweinyddiaeth o dan Ddeddf Plant 2004. Byddant yn cael eu cyhoeddi ym mis Mai 2006 ac yn dod i rym ym mis Medi 2006.

9. O 2008 ymlaen, bwriadwn gyflwyno un Cynllun Plant a Phobl Ifanc strategol a fydd yn cwmpasu tair blynedd. Bwriedir i'r cynllun osod sail ar gyfer cyd-gomisiynu lleol ar draws yr holl bartneriaid. Yn gefn iddo bydd cyllideb gyfun ar gyfer darparu gwasanaethau ar draws gwahanol asiantaethau statudol.

10. I gydnabod y cymhlethdod ychwanegol o baratoi ar gyfer y Cynllun Plant a Phobl Ifanc yr ydym yn bwriadu cymryd amser i'w drafod. Bydd canllawiau cynllunio drafft yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori yn ystod haf 2006 a bydd y canllawiau terfynol yn cael eu cyhoeddi yng ngwanwyn 2007. Bydd y cynlluniau cyntaf yn cwmpasu'r cyfnod 2008-2011.

11. Gan fod y grant hyblygrwydd cydweithio wedi cael ei ymgorffori yn y grant cynnal refeniw o fis Mawrth 2006 a gan fod canllawiau ynglyn â defnyddio'r grant hwn eisoes ar gael yn eang ni fyddai wedi bod yn fuddiol cynhyrchu canllawiau pellach ar hyn o bryd.

12. Sefydlwyd pedwar prosiect peilot gwasanaethau iaith a lleferydd o fis Ebrill 2005 o dan Ddeddf Iechyd 1999 (Trefniadau Partneriaeth). Maent wedi darparu cyfleoedd pellach ar gyfer comisiynu ar y cyd a chyllideb gyfun. Mae £3 miliwn wedi cael ei fuddsoddi yn y prosiectau peilot dros gyfnod o dair blynedd hyd at 2008. Penodwyd cydgysylltydd o fis Chwefror 2005 i weithio ar draws Iechyd ac Addysg i sefydlu trefniadau comisiynu ar y cyd ar gyfer gwasanaethau iaith a lleferydd ar lefel lleol. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau y Gwasanaeth Iechyd Gwladol weithio gyda'i gilydd o dan drefniant partneriaeth strategol, er mwyn asesu anghenion lleol a chanfod y ffordd fwyaf effeithiol o ddiwallu anghenion sydd wedi eu hadnabod. Mae'r bartneriaeth strategol yn cynnwys cynrychiolwyr o bob parti sydd â diddordeb ar lefel lleol, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau, rhieni a gofalwyr. Mae Cyfnod 2 y cynlluniau peilot wrthi'n cael ei ystyried a bu ymateb llethol gan y sefydliadau statudol yn gofyn a gant gymryd

rhan yn y cyfnod nesaf. Rhoddir gwybod pa brosiectau fydd yn llwyddiannus erbyn diwedd mis Mai 2006.

13. Mae unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol wrthi'n cael eu hystyried ar hyn o bryd fel rhan o'r fframwaith asesiadau a datganiadau statudol – Rhan 2 o adolygiad y Pwyllgor. Mae is-grwp o Grwp Ymgynghorol Cymru ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn ystyried ystod o wahanol opsiynau a byddwn yn ymgynghori gyda'r holl randdeiliaid allweddol ynglyn â'r opsiynau yn ddiweddarach eleni. Bydd hyn yn dilyn penodi swyddog adolygu i fynd â'r gwaith hwn yn ei flaen.

14. Anfonwyd canllawiau ynglyn â darparu gwasanaethau Anghenion Addysgol Arbennig yn rhanbarthol i bob Awdurdod Addysg Lleol ym mis Rhagfyr 2005. Gofynnwyd iddynt gyflwyno cynigion ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth ranbarthol ymhellach yn 2006/2007. Hyd yma mae dros £3 miliwn wedi cael ei ddyrannu ar gyfer datblygiadau o'r fath. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau ar gyfer disgyblion gydag Anhwylder Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Plas Brondyffryn yng Ngogledd Cymru, canolfan adnoddau ar gyfer disgyblion gyda Syndrom Asperger yn Ne Cymru a chanolfan adnoddau cynradd ar gyfer disgyblion gydag Anhwylder Sbectrwm Awtistig yn Sir y Fflint. Mae £2.8 miliwn arall wedi cael ei ddyrannu y flwyddyn ariannol hon i gefnogi datblygu tair canolfan allgymorth rhanbarthol ar gyfer disgyblion gyda nam amlsynnwyr, ac i wella darpariaeth ar gyfer disgyblion gydag ystod o anghenion yn ysgol Heronsbridge ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a chyfnod cynradd y ddarpariaeth Anhwylder Sbectrwm Awtistig yng Ngogledd Cymru, fel rhan o Ysgol Plas Brondyffryn. Mae ysgol Heronsbridge hon eisoes yn derbyn llawer o ddisgyblion o nifer o wahanol awdurdodau.. Hefyd mae gennym drafodaethau, sydd ar fin dod i ben, ynglyn â secondio unigolyn i'r adran i ddatblygu strategaeth ar gyfer darpariaethau rhanbarthol a fydd yn cael eu gweithredu fesul cam ar draws Cymru.

15. Gwnaed archwiliad o'r ddarpariaeth yn 2005 ac mae fy swyddogion mewn trafodaethau gyda nifer o Awdurdodau Addysg Lleol ar draws Cymru i ddatblygu'r ddarpariaeth ranbarthol ymhellach er mwyn diwallu ystod o wahanol anghenion.

## Hyfforddiant Athrawon a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (Argymhellion 3.3, 3.32, 3.80, 3.85 )

16. Fel y nodwyd yn flaenorol, nid oedd adolygiad Llywodraeth y Cynulliad o ddarpariaeth hyfforddiant cychwynnol athrawon yn cwmpasu cynnwys yr hyfforddiant (hynny yw, gofynion y cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon). Yr oedd yr adolygiad yn edrych ar y niferoedd a'r ddarpariaeth hyfforddiant cychwynnol athrawon. Yr oedd agweddau penodol megis gofynion neu gynnwys y cwrs y tu allan i gylch gorchwyl yr adolygiad.

17. Ar wahân i hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi adolygu ac ymgynghori ynglyn â safonau diwygiedig ar gyfer Statws Athro Cymwysedig ac ynglyn â'r gofynion statudol ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon. Byddai'r safonau Statws Athro Cymwysedig newydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob hyfforddai ddangos eu bod yn deall eu cyfrifoldebau o dan God Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Hefyd eu bod yn gwybod sut i ofyn am gyngor arbenigwyr am fathau llai cyffredin o anghenion addysgol arbennig; eu bod yn adnabod ac yn cefnogi disgyblion

sy’n profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (gyda chanllawiau oddi wrth athro profiadol lle bo hynny’n briodol); a’u bod yn gwahaniaethu eu dysgu i gwrdd ag anghenion disgyblion, gan gynnwys disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig (eto, gyda chanllawiau oddi wrth athro profiadol lle bo hynny’n briodol).

18. Mae’n rhaid i bob Sefydliad Addysg Uwch achrededig sy’n darparu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon redeg cyrsiau sy’n arwain at ennill Safonau Statws Athro Cymwysedig. Felly byddai’n rhaid i bob cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon gynnwys y pwyntiau a nodir uchod. Serch hynny, mae’r Safonau Statws Athro Cymwysedig yn gadael i’r darparwyr benderfynu drostynt eu hunain sut y byddant yn trefnu eu hyfforddiant ac yn ymateb i anghenion hyfforddai unigol. Nid ydynt yn gosod cwricwlwm nac yn nodi sut y dylid trefnu neu redeg yr hyfforddiant.

19. Yr ydym o’r farn mai’r adeg orau i arbenigo mewn Anghenion Addysgol Arbennig yw ar ôl i athrawon gwblhau eu hyfforddiant cychwynnol a’u blwyddyn ymsefydlu. Mae nifer o gyfleoedd ar gael i athrawon ar lefel ôl-radd yn y sefydliadau, er enghraifft M.A., M.Ed, Diploma a thystysgrif ôl-radd. Mae cyrsiau arbenigol ar gyfer cymwysterau gorfodol mewn Nam ar y Clyw a Nam ar y Golwg ar gael yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Casnewydd. Mae llawer o’r Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth gyda Sefydliadau Addysg Uwch yn cynnig ystod o gyrsiau i athrawon sy’n dymuno codi lefel eu harbenigedd mewn Anghenion Addysgol Arbennig.

20. Yr ydym wedi penodi person ar secondiad rhan amser o Brifysgol Bangor i ystyried pob agwedd ar hyfforddiant mewn perthynas ag Anghenion Addysgol Arbennig i athrawon, Awdurdodau Addysg Lleol a llywodraethwyr ysgolion. Mae archwiliad o’r hyfforddiant sydd ar gael yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd. Fel rhan o’r archwiliad hwn, cynhaliwyd cyfweliadau gydag Awdurdodau Addysg Lleol, Ysgolion, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Sefydliadau Addysg Uwch ac eraill. Yr wyf yn gobeithio derbyn adroddiad interim ar y gwaith hwn erbyn diwedd Tymor yr Haf. Bydd yn cynnwys argymhellion am fwy o gysondeb ar draws Cymru wrth gyflawni hyfforddiant ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig ac yn tynnu sylw at y meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach.

21. Yr ydym hefyd wedi sefydlu grwp gorchwyl o holl ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon y Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru i ystyried datblygiadau pellach mewn Datblygu Proffesiynol Parhaus mewn perthynas ag Anghenion Addysgol Arbennig. Fel rhan o is-grwp Grwp Ymgynghorol Cymru ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (WAGSEN), ‘Grymuso’r Gweithlu, mae’r grwp Sefydliadau Addysg Uwch gyda chyllid o £130,000 oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu cwrs Anghenion Addysgol Arbennig e-ddysgu dwyieithog sydd wedi ei achredu. Bydd y cwrs hwn yn rhoi tri deg o gredydau i athrawon tuag at ennill cymhwyster gradd meistr mewn Anghenion Addysgol Arbennig. Bydd y cwrs ar gael ym mis Ionawr 2007 a bydd yn cynorthwyo athrawon sy’n ceisio ennill rhagor o gymwysterau yn y maes hwn a bydd hefyd yn cael ei ddosbarthu i bob ysgol i weithredu fel sail adnoddau ar gyfer athrawon, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu a llywodraethwyr ysgolion. Cynlluniwyd y cwrs i ddarparu dull hyblyg o weithredu mewn perthynas â dysgu ar draws Cymru i gwrdd ag anghenion hyfforddi staff cymorth ysgolion fel rhan o Ddatblygiad Proffesiynol Cynnar a Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Bydd y cwrs hwn yn helpu athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu i weithio’n fwy effeithiol gyda disgyblion gydag Anghenion Addysgol Arbennig ac i godi ymwybyddiaeth am y ffactorau sy’n gysylltiedig â datblygu ysgol gynhwysol.

22. Ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn gweinyddu Rhaglen Cyllido Datblygiad Proffesiynol Parhaus i roi cyfle i athrawon yng Nghymru ddiwallu eu hanghenion datblygu proffesiynol unigol. Ni fwriadwyd y rhaglen i gyllido mentrau polisi penodol, ond i gwrdd ag anghenion datblygu athrawon unigol. Hyd yma mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhyddhau dros £18 miliwn i gefnogi'r rhaglen hon. Bydd y cyllid yn codi o £2.0 miliwn yn 2005-06 i £2.5 miliwn yn 2006-07. Mae bwrsari yn agored i holl athrawon Cymru os ydynt yn dymuno cymryd y cynnig, gan gynnwys athrawon sy'n dymuno gwneud cais am gyllid i ddilyn Datblygiad Proffesiynol Parhaus o ran Anghenion Addysgol Arbennig. Hyd yma mae 1,221 o unigolion wedi dilyn gweithgareddau Datblygu Proffesiynol Parhaus ym maes datblygu Anghenion Addysgol Arbennig.

23. Yr ydym yn parhau i ddarparu cyllid i Awdurdodau Addysg Lleol ac ysgolion trwy'r Gronfa Ysgolion Gwell fel rhan o Weithgaredd 4, i hyfforddi athrawon i ddiwallu ystod amrywiol o anghenion arbennig a chael cymwysterau arbenigol.

24. Mae Therapi Iaith a Lleferydd wedi cael ei gynnwys gan y tîm Mynediad 2009 mewn adolygiad o'r gallu a'r galw. Bydd yr adolygiad hwn yn adrodd yn ôl ynglyn â'r bylchau gallu o ran cyflawni'r targed aros o 26 wythnos ar gyfer 2009, fel y nodwyd yn "Cynllun Oes."

25. Yn ogystal â hyfforddi therapyddion iaith a lleferydd newydd yr ydym hefyd yn ceisio annog therapyddion sydd wedi gadael y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i ddod yn ôl i'r gwasanaeth trwy gynllun ar gyfer pobl sy'n dychwelyd. Mae'r cynllun hwn wedi cael rhywfaint o lwyddiant ac mae'n parhau i gael ei gefnogi.

26. Ar hyn o bryd, mae fy swyddogion yn ymgynghori gyda Sefydliadau Addysg Uwch ynglyn â sefydlu ail gwrs hyfforddi Therapi Iaith a Lleferydd yng Ngogledd Cymru. Rhagwelir y bydd y cwrs hwn yn gwrs ôl-radd dwy flynedd a fydd yn lliniaru'r prinder presennol yn y proffesiwn.

27. Bydd cyllid ychwanegol o £50,000 yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw yn 20006/2007 a £100,000 yn 2007/2008 fel y gall Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) gefnogi'r symudiad at gwrs hyfforddi doethuriaeth tair blynedd ar gyfer Seicolegwyr Addysg. Bydd datblygu'r cwrs tair blynedd hwn yn cysoni seicoleg addysg gyda disgyblaethau seicoleg eraill.

## Gwasanaethau Iaith a Lleferydd – Gweithio gyda'n Gilydd (argymhelliad 3.39)

28. Yr wyf wedi cytuno i'r ymatebion ymgynghori gael eu rhoi ar wefan Dysgu Cymru. Ar hyn o bryd mae rhywfaint o waith datblygu angenrheidiol yn cael ei wneud ar y safle ond rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau erbyn mis Mai 2006

29. Fel y dywedais yn gynharach mae prosiectau peilot cynharach wedi cael eu sefydlu i ddatblygu gwasanaethau iaith a lleferydd wedi eu comisiynu ar y cyd ar gyfer plant a phobl ifanc. Yn dilyn gwerthusiad o'r prosiectau peilot yn 2007 byddwn yn cyhoeddi canllawiau terfynol i ddarparu cyngor ynglyn â'r strwythurau a'r prosesau angenrheidiol sydd angen eu sefydlu er mwyn sicrhau gwasanaethau integredig effeithiol ac effeithlon.

**Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog (argymhelliad 3.69)**

30. Cwblhawyd Cynllun Gweithredu i fwrw ymlaen â’r argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad "Cydnabod Angen" Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Gwnaethpwyd hyn mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o Gymru a bydd y cynllun ar gael ar wefan Dysgu Cymru erbyn diwedd mis Mai 2006.

31. Fel yr awgrymwyd yn fy ymateb cyntaf i’r argymhelliad hwn, mae rhai o’r argymhellion eisoes wedi cael sylw, er enghraifft sefydlu Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig i Gymru a gwefan Adnoddau Anghenion Addysgol Arbennig dwyieithog. Mae llawer o waith yn cael ei wneud hefyd i gael mynediad i hyfforddiant Anghenion Addysgol Arbennig yn Gymraeg trwy ddatblygu cwrs e-ddysgu dwyieithog, a datblygu deunyddiau asesu.

32. Yr ydym wedi darparu cyllid ar gyfer deunyddiau asesu cyfrwng Cymraeg a gynhyrchwyd gan Ddinas a Sir Abertawe. Mae profion darllen ar gael erbyn hyn yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer disgyblion o bob oed. Mae’r holl Awdurdodau Addysg Lleol wedi rhoi croeso cynnes i’r prosiect arbennig hwn. Mae casgliad o 450 o destunau cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynhyrchu yn awr a byddant yn cael eu dosbarthu’n gynnar y flwyddyn nesaf. Yr ydym yn cyllido rhagor o waith gan Grwp Darllen Cymru Gyfan i addasu’r profion darllen i’w defnyddio gan ddisgyblion rhannol ddall.

33. Hefyd, yr ydym wedi darparu cymorth ariannol i Ysgol Seicoleg Prifysgol Bangor i ddatblygu deunyddiau asesu trwy gyfrwng y Gymraeg

34. Penodwyd Swyddog Cyswllt Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau iaith a lleferydd Cymraeg ym mis Mai 2005 ac mae’r flwyddyn secondiad yn dod i ben ar ddiwedd mis Ebrill 2006. Mae’r gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma yn cynnwys:

Gwobr Gofal Iechyd Cymru am wasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd Cymraeg/dwyieithog.

Coladu rhestr o sgiliau iaith (gan gynnwys Cymraeg) ar gynllun peilot Cofnod Staff Electronig ar draws Cymru i helpu i gael gwybod beth yw sgiliau iaith staff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Cynnwys data Iaith a Lleferydd yn Strategaeth Gwybodaeth Corfforaethol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Cynhaliwyd arolwg ar draws Cymru gyfan ynglyn â maint yr anghenion mewn perthynas ag iaith – disgwylir yr adroddiad dadansoddi ym mis Mai 2006

Cynnig llwyddiannus am Ymchwil i ddulliau arferol datblygu Cymraeg i gefnogi datblygu dulliau asesu Safonedig Cymru ar gyfer Therapi Iaith a Lleferydd.

Rhoi sail o wybodaeth i waith Hybu Iechyd Cymru ynglyn â datblygu Gwybodaeth a Sgiliau y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a hyfforddiant i Agenda ar gyfer Newid 2,3 a 4 a Chynorthwywyr Cefnogi Dysgu

Cysylltu gyda’r Cynllun Gweithredu Cydnabod Angen

Cefnogi Iaith Pawb, a strategaethau mewnol eraill wrth brif ffrydio materion Cymraeg/dwyieithog.

## Cymorth i Rieni ac Eiriolaeth (argymhellion 3.24, 3.27, 3.84)

35. Mae’n rhaid i bob Awdurdod Addysg Lleol wneud trefniadau ar gyfer gwasanaethau partneriaethau rheini. Mae’n hanfodol bod gan rieni fynediad at wasanaethau o’r fath fel eu bod yn gwybod lle i gael yr wybodaeth a’r cyngor y maent eu hangen. Mae’n rhaid i Awdurdodau Addysg Lleol roi gwybod am y gwasanaethau hyn i rieni, ysgolion ac eraill. Hefyd mae’n rhaid i Awdurdodau Addysg Lleol atgoffa rhieni am y gwasanaethau datrys anghydfod sydd ar gael bob tro y cyhoeddir datganiad arfaethedig neu hysbysiad diwygio. Mae hyn yn ofyniad i’r Awdurdodau Addysg Lleol o dan Ddeddf Addysg 1996. Yr ydym wedi darparu cymorth ychwanegol i Awdurdodau Addysg Lleol i’w galluogi i gyflawni’r ddyletswydd hon trwy’r Gronfa Gwell Ysgolion.

36. Rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad y newyddion diweddaraf ynglyn â’i chanllawiau i rieni a gofalwyr yn 2002 - "Anghenion Addysgol Arbennig: gwybodaeth i rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc a all fod gydag anghenion addysgol arbennig." Datblygwyd y llyfryn hwn mewn cydweithrediad â’r Awdurdodau Addysg Lleol a’r sector Gwirfoddol ac mae’n dal i fod yn berthnasol i’r Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig presennol ar gyfer Cymru. Bwriedir adolygu’r canllawiau hyn yn 2006/2007 mewn cydweithrediad â SNAP Cymru.

37. Ar ben hyn yr ydym yn ystyried darparu gwybodaeth bellach i rieni fel rhan o ddeunydd cymorth cynnar sydd wedi cael eu datblygu gan Yr Adran Addysg a Sgiliau mewn cydweithrediad â’r sector gwirfoddol. Ar hyn o bryd mae’r deunyddiau’n cael eu gwerthuso gan Brifysgol Salford a fydd yn cyhoeddi eu casgliadau erbyn diwedd mis Mai 2006. Byddaf yn ystyried canlyniadau’r gwerthusiad hwn cyn gwneud ymrwymiad terfynol i ddatblygu’r deunyddiau hyn yng Nghymru. Yr wyf wedi gofyn i’m swyddogion barhau i gysylltu gyda’r Tîm Cymorth Cynnar yn Yr Adran Addysg a Sgiliau.

38. Comisiynwyd Prifysgol Caerdydd i gynnal astudiaeth sylweddol o’r trefniadau ar gyfer eiriolaeth a chwynion ar draws meysydd iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Cyhoeddwyd yr astudiaeth ym mis Gorffennaf 2005, ac yr oedd yn ystyried nifer o agweddau gan gynnwys gwahanol fodelau eiriolaeth ac annibyniaeth darpariaeth y gwasanaeth. Bydd yr adroddiad yn werthfawr iawn fel sail o wybodaeth i adolygu a datblygu eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

39. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gofyn i’r Sefydliad Gofal Cyhoeddus ddatblygu fframwaith o ganllawiau a dulliau comisiynu ar gyfer cyflawni gwasanaethau eiriolaeth y dyfodol. Yn ddiweddarach eleni bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ynglyn â’r ddwy ddogfen cyn rhedeg prosiectau peilot mewn cydweithrediad â Phartneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc.

40 Ar hyn o bryd mae awdurdodau lleol yn contractio’r sector gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant sy’n agored i niwed, plant mewn angen a phlant sy’n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, gan gynnwys plant gydag Anghenion Addysgol Arbennig.

## Cymorth i’r bobl sydd ag iaith gyntaf arall ar wahân i Gymraeg neu Saesneg (argymhelliad 3.72)

41. Mae prosiect ar y gweill i ddatblygu strategaeth drosfwaol i gefnogi’r holl grwpiau disgyblion o leiafrifoedd ethnig. Mae gan y strategaeth ddull holistaidd o weithredu er mwyn gofalu bod materion sy’n ymwneud â disgyblion o leiafrifoedd ethnig yn cael eu trin fel rhan annatod o’r agwedd gynhwysol a fydd yn treiddio pob polisi addysg. Mae’n nodi’r egwyddorion allweddol darparu addysg effeithiol i ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig. Mae is-haenau’r strategaeth yn canolbwyntio ar anghenion grwpiau arbennig o ddysgwyr – Sipsiwn a Theithwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid yn ogystal â disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae hefyd yn ystyried beth yw’r ffordd orau i ni sicrhau cyflawniad a bodloni anghenion iaith disgyblion o leiafrifoedd ethnig mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

42. Mae Grwp Llywio o randdeiliaid allweddol wedi cael ei sefydlu i gyfrannu at ddatblygu’r strategaeth a sicrhau ansawdd cynnwys y strategaeth. Rhagwelir y bydd y strategaeth ddrafft yn cael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghori o fewn yr ychydig fisoedd nesaf. Bydd dosbarthiad y tri chynllun grant at y dyfodol (Ceiswyr Lloches, Teithwyr a Phobl wedi’u Dadleoli a Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig) yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori fel rhan o’r strategaeth hon.

43. Er mwyn ategu strategaeth Llywodraeth y Cynulliad, mae ACCAC yn datblygu canllawiau gweithredu pellach i gefnogi athrawon dosbarth prif ffrwd sy’n addysgu disgyblion o leiafrifoedd ethnig gan gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Bydd y canllawiau hyn yn codi ymwybyddiaeth ymhellach mewn Awdurdodau Addysg Lleol, ysgolion a sefydliadau addysgol eraill ynglyn ag anghenion disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Bydd yn dangos ffyrdd y gall ysgolion werthfawrogi amrywiaeth diwylliannol ac atal hiliaeth trwy gyfrwng y cwricwlwm a bydd yn cynnig enghreifftiau o ymarfer effeithiol mewn ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol lle mae eu systemau, eu polisïau a’u hymarferion yna adlewyrchu persbectif cynhwysol.

## Trefniadau Adrodd yn Ôl (argymhelliad 3.76)

45. Mae Anghenion Addysgol Arbennig wedi bod yn rhan o waith parhaus y pwyllgor hwn am y ddwy flynedd ddiwethaf a gyda hyn byddwn yn dechrau ar gam olaf yr adolygiad. Byddaf yn parhau i adrodd yn ôl i’r pwyllgor am y cynnydd a wnaed yn ôl eich argymhellion a’n polisïau ehangach mewn perthynas â Chynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol.

## Cyllid (argymhellion 3.79, 3.87)

46. Mae adolygiad o’r fformiwla a ddefnyddiwyd i ddyrannu cyllid Anghenion Addysgol Arbennig i Awdurdodau Addysg Lleol wrthi’n cael ei gynnal ar hyn o bryd. Mae’r Fforwm Ymgynghorol ar Gyllid eisoes wedi cytuno i fwrw ymlaen gyda’r gwaith hwn trwy’r Is-grwp Dosbarthu.

47. Yn ogystal ag adeiladu model cyllido yn seiliedig ar ddata ar lefel ward gan ddefnyddio dull o Fodelu Aml Lefel, mae aelodau o’r Is-grwp Dosbarthu hefyd yn ystyried y newidiadau diweddar i’r fformiwla a ddefnyddiwyd yn Lloegr.

48. Mae’n rhaid cael adolygiad llawn o’r gwasanaeth hwn ac mae hyn wedi cael ei gynnwys yn y rhaglen waith ar gyfer eleni. Ar hyn o bryd mae Estyn yn edrych ar gyllid Anghenion Addysgol Arbennig ar draws yr holl awdurdodau lleol ac mae’r Is-grwp Dosbarthu yn bwriadu ymuno yn y gwaith hwn. Bydd arbenigwyr yn y gwasanaeth yn cymryd rhan mewn unrhyw adolygiad ohono. Bydd yr adolygiad hefyd yn edrych ar ddangosyddion eraill, er enghraifft nifer disgyblion ac yn y blaen.

49. Fel rhan o ddatblygu Fframwaith Polisi a Pherfformiad Cynhwysiant, mae is-grwp o Grwp Ymgynghorol Cymru ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig yn gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru i gynhyrchu canllawiau arferion da ar Fecanweithiau Cyllido Effeithiol mewn Anghenion Addysgol Arbennig.

50. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yr wyf wedi darparu cyllid ychwanegol sef cyfanswm o £1 miliwn i Awdurdodau Addysg Lleol trwy Grant Cyfarpar Arbenigol i Ddysgwyr gydag Anghenion Ychwanegol. Mae’r grant hwn wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi dysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr gydag anghenion ychwanegol trwy ddarparu cyfarpar arbenigol a chymhorthion cyfathrebu fel eu bod yn cael mynediad i’r cwricwlwm.

## Argymhellion ar gyfer Cyrff Eraill

## Awdurdodau Addysg Lleol (argymhelliad 3.25, 3.26, 3.81)

51. Mae darparu gwybodaeth i rieni plant gydag anghenion addysgol arbennig ar gael ar lefel lleol a Chenedlaethol, ar draws y sector statudol yn ogystal â’r sector gwirfoddol. Mae llawer o awdurdodau wedi datblygu eu pecynnau Gwybodaeth i Rieni eu hunain ac mae’r rhain wedi bod yn adnodd defnyddiol i rieni. Hefyd mae’r sector gwirfoddol yn darparu ystod o wybodaeth mewn perthynas â meysydd penodol anghenion.

52. Yn dilyn trafodaethau gydag Awdurdodau Addysg Lleol, yr wyf yn bwriadu cynnal archwiliad o’r wybodaeth a ddarparir i rieni gan Awdurdodau Addysg Lleol eleni. Byddaf wedyn yn ystyried unrhyw anghenion datblygu pellach. Fel y nodwyd yn flaenorol, byddwn hefyd yn gweithio gyda SNAP Cymru i adolygu canllawiau cenedlaethol ar gyfer rhieni yn ystod 2006/2007. Ond bydd rhaid ystyried hyn hefyd fel rhan o unrhyw newidiadau arfaethedig i’r fframwaith statudol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig gan fod y canllawiau hyn wedi cael eu seilio ar ddeddfwriaeth gyfredol.

53. Mae cyfanswm y gwariant sydd yng nghyllideb Awdurdodau Addysg Lleol ar gyfer darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig yn 2005-06 yn £261 miliwn. Mae hyn yn gynnydd o 7% ar gyllideb y flwyddyn flaenorol. Mae gwariant dirprwyedig i ysgolion arbennig yn 21% o’r holl wariant Anghenion Addysgol Arbennig sydd yn y gyllideb yn 2005-06. Mae dyraniadau tybiannol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn 36% arall o’r cyfanswm. Mae’r 43% sy’n weddill o’r cyfanswm yn cynnwys arian a ddaliwyd yn ganolog gan Awdurdodau Addysg Lleol. Comisiynodd y Cynulliad adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru, ‘Dadansoddiad o Gyllid Ysgolion’, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2006. Gofynnod y Cynulliad i Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu dadansoddiad gwrthrychol o’r amrywiad yng nghyllidebau cynghorau ac yn y lefelau cyllido cymharol ar gyfer

ysgolion.

### Colegau Hyfforddi Athrawon (argymhelliad 3.33)

54. Cyfeiriaf yma at yr ymatebion cynharach mewn perthynas â hyfforddi athrawon a datblygu proffesiynol parhaus.

### Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (argymhelliad 3.20, 3.34)

55. Fel yr awgrymwyd yn fy ymateb i'r argymhelliad hwn, nid swyddogaeth y Cyngor yw darparu canllawiau i athrawon yn y ffordd a awgrymwyd yn yr argymhelliad hwn naill ai mewn perthynas ag Anghenion Addysgol Arbennig nac unrhyw faes arall o ddatblygu proffesiynol. Ond mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gofyn i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru lunio fframwaith datblygu proffesiynol a fydd yn darparu canllawiau i athrawon ynglyn â'u datblygu proffesiynol ac yn eu helpu i adnabod eu hanghenion datblygu. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn ymgynghori ynglyn â Haen 2 o'r Fframwaith Datblygu Proffesiynol sy'n ceisio cyflwyno cerrig milltir a safonau proffesiynol cysylltiedig ar gyfer 'Athro Siartredig'. Disgwylir i'r Cyngor dynnu o'r safonau presennol a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Hyfforddi Athrawon ar gyfer Arweinwyr Pwnc a Chydgysylltwyr Anghenion Addysgol Arbennig.

### Estyn (argymhelliad 3.28 )

56. Gweler yr ymateb blaenorol i'r argymhelliad hwn. Mae holl adroddiadau Estyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr arolygiaeth ac maent hefyd yn cael eu cynhyrchu mewn copi caled lle bo hynny'n briodol.

### ACCAC (argymhelliad 3.15 )

57. Fel rhan o'r Adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol a threfniadau asesu, mae ACCAC/ yr Is-adran Cymwysterau a Chwricwlwm yn datblygu disgrifiadau lefel er mwyn asesu plant a phobl ifanc sy'n gweithio o dan lefel 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd y disgrifiadau hyn yn gyson â lefelau cynnar ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Bydd canllawiau pellach yn cael eu cynhyrchu ynglyn â defnyddio'r disgrifiadau crynodol hyn ac asesiadau ffurfiannol parhaus ar gyfer dysgu disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

### Goblygiadau Ariannol

58. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r papur hwn.

### Themâu Trawsbynciol

59. Mae cwrdd ag ystod amrywiol o anghenion addysgol arbennig yn mynnu cydweithredu'n agos gyda nifer o wahanol sefydliadau statudol a gwirfoddol. Mae tystiolaeth o'r dull hwn o gydweithredu yn bodoli yn ein holl bolisïau mewn perthynas ag Anghenion Addysgol Arbennig ac yng ngwaith y Grwpiau Ymgynghorol sy'n gweithio gyda ni i ddatblygu Fframwaith Polisi a Pherfformiad

Cynhwysiant. Mae Cyfle Cyfartal yn sail i bob agwedd o’r gwaith hwn er mwyn gofalu bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael mynediad cyfartal at addysg, eu bod yn gallu cyrraedd eu llawn botensial a bod y rhwystrau i ddysgu yn cael eu dileu.

60. Er bod anghenion addysgol arbennig yn dod o fewn portffolio’r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, mae’n gorgyffwrdd gyda phortffolio’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a’r Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Mae rhai goblygiadau hefyd i Gyllid a Llywodraeth Leol.

## Camau Gweithredu i’r Pwyllgor Pwnc

61. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y papur hwn.

**Jane Davidson**
**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**
**Person cyswllt: Mair Watkins, Anghenion Ychwanegol a Chynhwysiant, x 6077**